**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | A J Jeffery |
| S E Keeton | M B Lewis | R D Lewis |
| N L Matthews | M S Tribe | R A Williams |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Eilian Jones | Arweinydd Tîm Ardal |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Dave Owen | Prif Swyddog Cynllunio |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M H Jones a/ac T M White

---

**29 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd P Lloyd – Eitem 4 (1) - 2023/1680/FUL - Personol

**30 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 a 24 Hydref 2023 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

**31 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r ceisiadau cynllunio isod.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#) (Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod.)

**(Eitem 1) - Cais cynllunio2023/1765/S73 - Cae dan do newydd, estyniadau i adeiladau presennol y ganolfan hamdden ynghyd ag ailgyfluniad mewnol fel y gellir darparu gwell cyfleusterau campfa a newid, ystafell gymunedol, ardal gaffi a derbynfa, ailbwrpasu'r ystafelloedd ffitrwydd presennol fel y gall yr ysgol eu defnyddio at ddibenion buddiol, ailwampio'r cyrtiau tennis, y ffensys a'r goleuadau cysylltiedig, gosod llwybrau cydgysylltiol i gerddwyr rhwng yr ysgol a'r ardaloedd hamdden a'r cysylltiadau allanol presennol sy'n amgylchynu'r safle, maes parcio newydd gyda mynedfa newydd yn agos i Cefn Hengoed Road - Amrywiad ar amodau 13, 14 a 15 caniatâd cynllunio 2021/1331/FUL a roddwyd ar 1 Tachwedd 2021 i ganiatáu ar gyfer meddiannu'r cyfleuster hamdden a chymunedol cyn i'r sgubor chwaraeon gael ei chwblhau ac i'r maes parcio, mannau gwefru a lle storio beiciau gael eu darparu'n llawn pan gaiff y sgubor chwaraeon ei chwblhau yng Nghanolfan Hamdden Cefn Hengoed Caldicot Road, Bôn-y-maen, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol manwl.

Anerchwyd y pwyllgor gan Jamie Rewbridge (ymgeisydd– Cyngor Abertawe) .

**(Eitem 2) - Cais Cynllunio 2023/2018/RES - Materion a gadwyd yn ôl Cais am adeiladu unedau preswyl ac uned fasnachol gysylltiedig ar y llawr gwaelod, lle parcio ceir, gwaith tirlunio ac isadeiledd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol 2023/0357/OUT a roddwyd ar 22 Medi 2023 a chyflwyno manylion yn unol ag Amod 6 (Cynllun Tirlunio), 7 (Cynllun Rheoli Tirlunio), 8 (Lefelau tir a lefelau lloriau arfaethedig), 9 (Samplau o orffeniadau allanol), 10 (Lluniadau manwl), 18 (Cilfan i gerbydau a gwaith cysylltiedig i'r briffordd), 27 (Sŵn) yn Safle B3 , Riverside Wharf, Glannau Abertawe, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol manwl.

# Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Awdurdod Priffyrdd - nid oes ganddynt sylwadau pellach i'w gwneud ar ben y rheini a ddarparwyd yn y cam amlinellol.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.28 pm

**Cadeirydd**